HAF 2026
RHIFYN 35
ubc.cymru

UBC
BUW

# Y Negesydd



AI: Sut ddylen ni ymateb?
Y Trallwng: Eglwys sydd yn Tyfu - ac yn Symud!
Cenhadaeth yn Ghana
Cyflwyno Llywyddion 26/27
*a mwy...*

# CYNNWYS

RHIFYN 35


1 Clawr

2 Gair Golygyddol

3 Cenhadaeth: Dilyn Ei Alwad

4 AI: Sut ddylen ni ymateb?

5 Eglwys sy'n Tyfu - Ac yn Symud!

6 Newyddion UBC

7 Newyddion ar draws y byd

8 Dod i nabod... Anne & Bryan Collis



***Cynhyrchir Y NEGESYDD dair gwaith y flwyddyn gan Undeb Bedyddwyr Cymru. Serch hynny, ni ddylid cymryd safbwyntiau a fynegir yn y cylchgrawn fel petaent yn cynrychioli barn swyddogol yr Undeb ar unrhyw fater.***


# GAIR golygyddol

HAF 2026

Yn y rhifyn hwn o'r Negesydd, clywn oddi wrth ein Hysgrifennydd Cyffredinol Newydd: y Parch. Simeon Baker. Rhanna Simeon gyda ni rai o'i fyfyrdodau yr haf hwn ar thema "trysorau hen a newydd,", a'r alwad i ddyfalbarhau i ddisgleirio goleuni Crist I'n cymunedau...



Yr haf hwn ymwelodd y "Antiques Roadshow" â Chastell Caerffili i weld pa drysorau sydd gan bobl dda Caerffili i'w rhannu gyda'r arbenigwyr ac i wrando ar y straeon y tu ôl iddynt. Gobeithio, bydd y foment wych honno yn digwydd - pan fydd rhywun yn darganfod gwerth wirioneddol rhyw grair neu greiriau teuluol a ddiystyrwyd o'r blaen.

'Dod â Thrysorau Hen a Newydd' oedd teitl Galwad y Gweinidogion ar Zoom ym mis Gorffennaf, dan arweiniad Rosa Hunt ac Ed Kaneen, gan edrych o'r newydd ar alwad Samuel. Er gwaethaf ei oedran, ei ddallineb a'i feibion, mae gan Eli rôl i'w chwarae o hyd wrth helpu Samuel i ddirnad galwad Duw. Dim ond ar ôl pedwerydd ymweliad Samuel ag Eli y sylweddololdd Eli fod Duw ar fin gwneud rhywbeth newydd yn eu plith. Roedd angen Eli ar Samuel i'w helpu i glywed. Mae'n arwyddocaol bod hyn i gyd yn digwydd ar adeg pan mae'r awdur yn dweud wrthym:

"Nid oedd lamp Duw wedi diffodd eto." (1 Samuel 3:2)

Tybed pa mor aml ydyn ni wedi teimlo bod y lamp bellach yn edwino a bron â diffodd? Pryd ydyn ni wedi dweud wrthym ni ein hunain, "Dwi'n rhy hen, yn rhy wan, yn rhy flinedig – dwi wedi gwneud y cyfan y galla i?" Efallai bod trysor eto i'w ddarganfod ac bod Duw yn gofyn i ni ddod â'n trysorau hen a newydd.

Pan fod rhai yn dweud y bydd y ffydd Gristnogol yng Nghymru yn diflannu erbyn 2050, rydw i am ddweud yn hyderus: 'Nid yw lamp Duw wedi diffodd eto'. Ymhell ohoni. Wrth i chi ddarllen y rhifyn hwn o'r Negesydd, gobeithio y cewch eich annog i weld tystiolaeth o ras Duw a gwaith ei Ysbryd Glân ar waith yng Nghymru heddiw. Boed i Dduw ein helpu yn ystod misoedd yr haf hyn, i ddarganfod trysorau cudd, fel y gall goleuni Duw ddisgleirio'n llachar yn ein heglwysi mewn ffyrdd hen a newydd.

*O.N Darllenwch ymhellach i glywed: straeon am hyfforddiant cenhadol yng Nghymru - ac yn Ghana! (tud. 3 a 7); datblygiad eithafol gyflym AI / DA, a'n perthynas gydag ef fel eglwysi (tud. 4), hanes eglwys sydd yn tyfu - ac yn symud! - yn y Trallwng (tud.5), a chyflwyniad i'n Llywyddion newydd ar gyfer 2026/27 (tud. 6).*

*Yng Nghrist,*

**Parch. Simeon Baker** (Ysgrifennydd Cyffredinol UBC)

***& Sioned Graves*** *(Swyddog Cenhadaeth a Chyfathrebu)*

# CENHADAETH:
# *Dilyn Ei Alwad*




Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, bu hi'n hyfryd croesawu nifer o aelodau newydd i'n **Cymuned Ddysgu Gweinidogaeth Cenhadol** newydd. Wrth i ni glywed eu straeon, cawn ein hatgoffa unwaith eto sut mae'r Arglwydd yn parhau i alw pobl i waith ei Deyrnas yma yng Nghymru. Yn y rhifyn hwn, clywn stori **Nikki** o Aberhonddu...

Tyfodd fy nhaith genhadol yn raddol dros fy oes fel rhan o Eglwys y Bedyddwyr Watergate. Dechreuais fynychu'r eglwys fel plentyn, symudais drwy'r Ysgol Sul, a chefais fy medyddio yn ddeuddeg oed. Plannodd y blynyddoedd cynnar hynny hadau ymwybyddiaeth ddofn o gariad Duw ynof fi - ac ymdeimlad ei fod yn fy ngalw ymlaen. Ar ôl byw i ffwrdd o gartref yng Nghaerdydd, fe wnaeth dychwelyd i Aberhonddu deimlo fel camu nôl i'r man lle roedd Duw wastad wedi bod yn fy siapio'n fewnol. Adnewyddwyd fy ffydd o'r newydd, ac fe wnaeth gwasanaethu yn y capel fel diacon, ysgrifennydd pulpud, ac yn ddiweddarach fel ysgrifennydd yr eglwys, fy nhynnu eto i berthynas ddyfnach â Duw ac i awydd cynyddol i'w wasanaethu gyda'm bywyd i gyd.

> *"[Adnabyddias] o'r diwedd yr alwad yr oedd Duw wedi ei gosod ar fy nghalon ers blynyddoedd lawer"*

Daeth trobwynt sylweddol yn 2023 pan ymddeolais o'm rôl fel Uwch Swyddog Safonau Masnach. Dechreuodd y gwaith fynd yn gorfforol iawn ac roedd yn peri tipyn o straen, felly fe wnaeth camu i ffwrdd greu seibiant angenrheidiol - gofod tawel lle gallwn i o'r diwedd adnabod yr alwad yr oedd Duw wedi bod yn ei gosod ar fy nghalon ers blynyddoedd lawer. Deuthum i ddeall bod Duw yn fy rhyddhau o un math o wasanaeth fel y gallai fy arwain i un arall. Nid oedd y trawsnewidiad hwn yn teimlo fel newid gyrfa, ond yn hytrach ddatblygiad galwad oedd wedi bod yn aeddfedu'n dawel y tu fewn i fi.

Bu'r Hyfforddiant Gweinidogion Cenhadol yn gyfrwng i'r alwad hon gymryd siâp cliriach. Bu'n drawsnewidiad, yn ymestyniad, ac ar adegau yn aflonyddwch' sanctaidd. Trwy'r Modiwl Byw, darganfyddais nad gweithred yn unig yw 'disgyblaeth' ond ei fod yn waith dyddiol gan Dduw ynof fi. Dysgais yn yr Encil 'Gwrando' yn y Bala am glywed llais Duw yn yr Ysgrythur, trwy daw-elwch, mewn cymuned, ac yn y dirwedd o'm cwmpas Ail-luniodd yr Encil 'Arwain' yn Nhregoyd fy nealltwriaeth o arweinyddiaeth, gan ddatgelu Iesu fel yr un sy'n arwain *o'r ffordd* - trwy ostyngeiddrwydd, tosturi, a phresenoldeb. Nid yn unig fy nysgu am genhadaeth y gwnaeth y profiadau hyn; fe oleuon nhw'r llwybr yr oedd Duw eisoes wedi bod yn fy arwain ar hyd-ddi.



Mae gweinidogaeth genhadol yn Aberhonddu heddiw wedi'i wreiddio mewn presenoldeb, perthynas a gwasanaeth. Rwy'n arwain addoliad, ac yn helpu siapio bywyd Eglwys Watergate. Mae sefydlu Brecon Street Pastors yn parhau i fod yn un o brofiadau mwyaf gwerth chweil fy mywyd, gan ddangos i mi fel mae cenhadaeth yn ffynnu pan fydd Cristnogion yn 'camu mas' gyda thosturi i'w cymunedau. Mae cenhadaeth, i mi, i wneud gyda dirnad ble mae Duw eisoes ar waith ac ymuno ag Ef yno.

> *"Mae cenhadaeth ... i wneud gyda dirnad ble mae Duw eisoes ar waith."*

Wrth edrych ymlaen, rwy'n gobeithio gweld Watergate yn datblygu i fod yn ganolbwynt cenhadol bywiog, croesawgar. Rwyf am ddyfnhau partneriaethau cymunedol, datblygu'r addoliad, ac arwain mewn ffordd ostyngedig. Fy nymuniad yw parhau i gael fy siapio, a cherdded y ffordd gyda Christ tra'n helpu eraill i ddarganfod Ei bresenoldeb ar hyd y ffordd. Mae bod yn rhan o garfan y Gweinidogion Cenhadol wedi cryfhau'r alwad. Fe wnaeth yr encilion fy sefydlu mewn arferion da o wrando ac arweinyddiaeth ostyngedig. Mae'r garfan ei hun wedi bod yn rhodd hefyd - cymuned o gyd-bererinion sy'n fy annog, fy herio a'm hysbrydoli. Mae hyn i gyd - fy ngwreiddiau yn Watergate, trobwynt gadael fy swydd, fy hyfforddiant, a'r genhadaeth sy'n datblygu yn Aberhonddu - wedi fy arwain i'r foment hon. Rwy'n sefyll yn barod i gamu ymlaen, dal yn cael fy siapio, dal yn cael fy anfon, a dal yn cael fy nal gan y Duw sydd wedi arwain bob cam o'r ffordd.

# AI: SUT DDYLEN NI YMATEB?




Myfyrdodau o Ddarlith Blynyddol Edwin Stephen Griffiths (Coleg Bedyddwyr Caerdydd) gyda'r Parch. Ddr. Sally Nelson ~ *Myfyrdodau gan Sioned Graves*

Yng Ngwanwyn 2025, canfu Arolwg Agweddau Byd-eang fod 76% o oedolion mewn 25 gwlad yn teimlo pryder am ddefnydd cynyddol Deallusrwydd Artiffisial (AI / DA) ar draws y byd. Ar yr un pryd, mae llywodraeth y DU wedi blaenoriaethu buddsoddiad mewn AI, ac o Alexa a Siri, i ganeuon a gynhyrchwyd gan AI, a'r cynnydd mewn ymosodiadau cyber... mae presenoldeb AI yn ein cymdeithas yn annhebygol o leihau unrhyw bryd yn fuan. Sut ydyn ni'n teimlo am hyn... fel unigolion, fel credinwyr, fel eglwysi?

Mae'n gwestiwn pwysig i'w ofyn yn yr oes sydd ohoni - un nad ydym bob amser yn teimlo caniatâd i'w ofyn, gyda'r byd o'n cwmpas 'jest yn cymryd yn ganiataol' gyflymdra eithafol datblygiad AI. Mae gan lawer yn ein heglwysi hefyd ofnau gwirioneddol a dilys am ddatblygiad AI, gyda llawer yn galw am bwyll mawr wrth symud ymlaen - gan weld peryglon cymdeithasol, personol ac ysbrydol posib. Mae eraill yn gweld potensial cadarnhaol AI, gyda rhai yn credu y gall y datblygiad technolegol ein cynorthwyo hyd yn oed i gyflawni'r 'Comisiwn Mawr' mewn rhai ffyrdd penodol! Enghraifft o'r rhain yw adroddiadau diweddar gan Wycliffe Bible Translators sydd yn adrodd am gyflymdra anhygoel cyfieithu'r Beibl ledled y byd erbyn hyn: i ieithoedd lleiafrifol nad oeddent cyn hynny yn meddu ar y Beibl yn eu hiaith eu hunain. Mae'r cyflymdra hyn i raddau helaeth o ganlyniad i gymorth technolegau cyfieithu AI. Fodd bynnag, mae hyd yn oed y rhai sydd yn sôn am y datblygiadau hyn yn rhybuddio bod angen parhau yn ofalus iawn gyda'n defnydd o AI – a bod angen goruchwyliaeth ddoeth ddynol (mae Wycliffe dal yn pwysleisio pwysigrwydd cyfieithwyr proffesiynol dynol i oruwchwylio'r broses i gyd, er enghraifft).

*"Mae gan lawer... ofnau gwirioneddol a dilys... mae eraill yn gweld potensial."*

Oes lleisiau eraill o'n cwmpas all ein helpu ni fel Cristnogion feddwl yn ddoeth ac yn Feiblaidd am dechnoleg AI? Oes wir. Yn ddiweddar, croesawodd Coleg y Bedyddwyr Caerdydd y Parch. Ddr. Sally Nelson i ddarlith flynyddol Edwin Stephen Griffiths. Mae Sally yn Weinidog Bedyddiedig ac yn Ddarlithydd academaidd – gyda diddordeb ymchwil mewn anthropoleg ddiwinyddol. Gofynnodd y cwestiwn y gallai llawer ohonom fod yn ei gofyn mewn perthynas ag AI: "Ydw i'n eich galw'n Was neu Ffrind?" ... ac oes lle i *anghydffurfiaeth?* Ni chynigiodd atebion syml du a gwyn i ni - ond cynigiodd ystyriaethau doeth a allai ein helpu yn ein ffordd ymlaen.




Yn gyntaf - cwestiwn: 'beth yw person?'. Mae llawer o ofnau yn ymwneud a all, neu a *ddylai* AI, erioed gymryd lle pobl - mewn swyddi, neu hyd yn oed wrth ysgrifennu pregethau (mae'n digwydd!). Tynnodd Sally ein sylw at Ioan 15:15 pan ddywed Iesu "Nid yw'r gwas yn gwybod beth y mae ei feistr yn ei wneud, [ond] yr wyf wedi eich galw yn gyfeillion". Atgoffodd Sally ein bod wedi'n creu ar ddelw Duw, ac fel rhan o hynny - rydym yn cael ein gwahodd i gyfeillgarwch ag Ef. A allai AI fyth fod yn fwy na gwas – allai fyth fod yn ffrind i ni? Barn Sally yw hyn: er y gall AI fod yn ddynwaredwyr gwych o syniadau ac ieithwedd ddynol, mae dynoliaeth a natur 'person' yn rhodd gan Dduw - yn unig.

Yn ail, yn ein defnydd ymarferol o AI - rhybuddiodd Sally fod yna gwestiynau moesol y byddwn yn ddoeth eu gofyn. Er bod pethau gwych yn gallu cael eu cyflawni gyda chymorth AI (e.e. mewn meysydd meddygol), cynghora Sally y byddai'n ddoeth i ofyn cwestiynau beirniadol am berthynas ein cymdeithas â AI, a'n perthynas ag ef fel credinwyr ac eglwysi. Ar lefel bersonol, er enghraifft, gall defnyddio bots AI gynyddu dibyniaeth ar atebion cyflym a hawdd, ac effeithio ar ddatblygiad beirniadol unigolyn - yn enwedig plant ac ieuenctid. Ar lefel gymdeithasol, mae peiriannau chwilio sy'n cael eu pweru gan AI ddim ond yn medru sganio'r data sydd ar gael, a bydd yn aml iawn duedd aml tuag at ffynonellau poblogaidd. Pa naratifau y gallai hyn fwydo yn ein cymdeithas - ac yn ein heglwysi? Mae Sally yn ein gwahodd ni fel credinwyr i arfer dirnadaeth ddoeth ynghylch materion fel rhain (dim ond enghreifftiau yw'r rhain!).

*"Mae Sally yn ein hannog, fel credinwyr, i arfer dirnadaeth tuag at AI, gyda chymorth yr Ysbryd Glân a Gair Duw."*

Cyflwynodd Sally hefyd bedair enghraifft o ystyriaethau moesol all ein helpu wrth ddirnad. Y rhain yw: Cwestiwn Awdurdod (e.e gwybodaeth gan bwy sydd yn cael ei flaenoriaethu gan AI?); Gwirionedd (Oes potensial i wirionedd gael ei wyrdroi?); Adnoddau (Pa adnoddau sydd eu hangen i gynnal AI?); a Pherthnasau (Sut allai rhai perthnasau ddioddef wrth i ni droi at AI?). Er ei bod hi'n anodd penderfynu 'da' a 'drwg' mewn perthynas â phob defnydd o AI, mae Sally yn ein hannog, fel unigolion a chymunedau o gredinwyr, i arfer dirnadaeth tuag at AI, gyda chymorth yr Ysbryd Glân a Gair Duw. *Galwad i weddïo a dirnad gyda'n gilydd yn wir.*



# EGLWYS SYDD YN TYFU... AC YN SYMUD!

*Gellir dweud bod Sir hanesyddol Trefaldwyn ymhlith rhanbarthau tawelaf a lleiaf poblog Cymru. Serch hynny, lleolir un o'r eglwysi yn ein plith sydd wedi profi twf sylweddol yn ddiweddar yn yr union ranbarth dawel hon! Cawsom sgwrs gyda'r* ***Parch. Rob Saunders*** *yn ddiweddar, a rannodd gyda ni dipyn am hanes Eglwys Bedyddwyr y Trallwng, a'r fendith a'r heriau y maent wedi eu gweld dros y blynyddoedd diwethaf...*

Tra bod nifer ohonom mae'n siŵr yn dyheu am weld twf yn ein cymunedau eglwysig, yr hyn sydd yn gwneud hanes Eglwys Bedyddwyr y Trallwng yn drawiadol yw'r ffydd sydd wedi gorfod codi mewn ymateb i heriau twf yn yr eglwys!
"Yn debyg i nifer o eglwysi, gwelsom dwf yn nifer y mynychwyr ar ôl Covid-19," meddai Rob, "ond mae'r twf hwn wedi parhau, ac wedi cynyddu yn enwedig dros y 2-3 blynedd ddiwethaf." Mae Eglwys Bedyddwyr y Trallwng wedi gweld y nifer o fynychwyr yn dyblu – nawr dros uchafswm cyfforddus y capel o c.65.

Pwysleisia Rob nad yw'r twf hwn wedi bod yn ffenomena sydyn, ond creda ei fod wedi dod o flynyddoedd o ymrwymiad gan yr eglwys i'r lle a'r bobl o'u cwmpas. Yn hytrach na throi at ddulliau cenhadol newydd (er bod Rob yn credu bod lle i'r rhain!), prif ffocws yr eglwys dros y blynyddoedd diwethaf bu cryfhau eu hunaniaeth fel eglwys, a deall pwy ydyn nhw fel dilynwyr Crist. Mae hyn hefyd wedi cynnwys deall yr alwad i estyn allan i'r gymuned o'u cwmpas – yn ogystal ag ymrwymiad cadarn at weddi. Rhanna Rob, ymhell cyn iddo gyrraedd, "roedd gan yr eglwys draddodiad cryf o weddi - cyfarfodydd gweddi, gweddi mewn grwpiau cartref, ar y Sul... hyd yn oed 24 awr o weddi! Fe wnaethon nhw weddïo am bopeth, ac rydyn ni'n parhau i weddïo am bopeth!". Mae Rob yn credu'n gryf bod y fendith maen nhw'n ei fwynhau ar hyn o bryd fel cymuned yn gyntaf ac yn bennaf felly yn deillio o'r Arglwydd - ac nid o'i waith ef ei hunan neu eu gwaith nhw fel eglwys.

> *"Rhanna Rob, ymhell cyn iddo gyrraedd, 'roedd gan yr eglwys draddodiad cryf o weddi - cyfarfodydd gweddi, gweddi mewn grwpiau cartref, ar y Sul... hyd yn oed 24 awr o weddi!'"*

Mae rhai o'r atebion hyn i weddi wedi cynnwys gweld pobl newydd yn symud i'r ardal, yn cael eu denu i'w heglwys, ac yn dewis aros. Yn ogystal, maent wedi gweld sawl sydd wedi byw yn yr ardal ers amser maith a oedd unwaith efallai yn gysylltiedig gydag eglwys – ond am ba bynnag rheswm wedi pellhau oddi wrth ffydd – yn dychwelyd ac yn dewis gwneud Eglwys Bedyddwyr y Trallwng yn gartref iddynt. Mae'r niferoedd ychwanegol hefyd wedi dod â heriau i'r eglwys – rhai y mae Rob yn cyfaddef nad yw llawer o weinidogion fel efe sy'n gweddïo am dwf o reidrwydd yn sylweddoli y gallant godi! Her ymarferol iawn yw y gall y nifer reolaidd o fynychwyr ragori ar gapasiti cyfforddus adeilad capel Chelsea Lane. Mae hyn wedi golygu bod angen i'r eglwys fynd ar daith - a chwrdd mewn lleoliadau heblaw am adeilad y capel. Mae'r rhain wedi cynnwys: neuadd y dref, canolfannau cymunedol, adeiladau gwesty lleol - ymhlith eraill. Fodd bynnag, nid oes yr un o'r lleoliadau hyn wedi cyflwyno eu hunain yn ddelfrydol: gyda llawer yn cymryd archebion tymhorol sy'n cymryd blaenoriaeth dros yr eglwys. Mae Rob yn ansicr am eu camau nesaf fel eglwys: tra mai darganfod cartref newydd parhaol i'r eglwys yw eu gweddi, does dim opsiynau clir wedi cyflwyno eu hunain eto. Mae'r tymor hwn o 'deithio' fel eglwys wedi bod yn brawf ffydd, gydag angen weithiau i 'ymgartrefu â'r anhrefn'! Mynega Rob, serch hynny, bod cymuned yr eglwys wedi gwneud argraff arbennig arno yn y ffordd y maent wedi cwrdd â heriau, ymgartrefu ag ansicrwydd, a chynnal bodlonrwydd i drio pethau newydd. Efallai nad yw'r eglwys mewn tymor "hawdd" ar y cyfryw – hyd yn oed ar ôl profi bendith twf – ond maent yn sicr wedi eu gosod mewn lle da ar gyfer taith ffydd wrth iddynt barhau i geisio'r Arglwydd am y camau nesaf, un y maent yn gweddïo fydd yn eu tyfu mewn ffydd a chymeriad, yn ogystal ag mewn nifer.

> *"Mae hyn wedi golygu bod angen i'r eglwys fynd ar daith..."*

# NEWYDDION ar draws

## Cyflwyno ein Llywyddion Newydd

**Rydym yn falch iawn o gyflwyno ein Llywyddion newydd ar gyfer 2026/27! Yr haf hwn rydym yn croesawu dau Lywydd newydd i'n plith.**



Croesawn y Parchedig Dr Rosa Hunt fel Llywydd yr Adran Gymraeg. Yn wreiddiol o Malta, mae Rosa yn weinidog Tabernacl yr Ais yng Nghanol Caerdydd, wedi gweinidogaethu yn Salem, Tonteg ac wedi gwasanaethu fel Cyd-Bennaeth ar Goleg y Bedyddwyr Caerdydd. Mae gobeithion Rosa ar gyfer ei blwyddyn lywyddol yn cynnwys archwilio thema pererindod (a chynnal pererindod go iawn i Malta yn 2027!), ac edrych ar gwestiwn iaith ac ymwneud amlieithog cadarnhaol ar draws ein Hundeb. Croesawn hefyd y Parch. Paul Smethurst fel Llywydd yr Adran Ddi-Gymraeg. Mae Paul yn byw yn Nhalgarth gyda'i wraig Robyn ac yn gweinidogaethu fel Gweinidog Cenhadol ar gyfer Sir Frycheiniog, tra hefyd yn cynnig arweinyddiaeth i weinidogaethau arloesol cenhadol UBC. Mae Paul hefyd wedi dewis 'Pererindod' fel thema allweddol eleni, ac mae'n gobeithio archwilio'r alwad i genhadaeth arloesol gael ei hadfer i ni fel teulu Bedyddiedig. Cred Paul bod olrhain ein gwreiddiau i'r credinwyr Bedyddiedig cynnar yng Nghymru a fentrodd llawer i addoli ein Harglwydd Iesu - a'i rannu gydag eraill - yn gallu ein helpu yn ein hystyriaethau o genhadaeth heddiw. *Croeso, Rosa a Paul!*



## ... a Diolch i'n Cyn-Lywyddion!

**Diolchwn hefyd i Lywyddion 2025/26, y Parchedigion Maggie Rich a Rob Nicholls am eu holl gyfraniad a gwasanaeth i fywyd yr Undeb.**

Gofynnon ni i Maggie (Cyn-llywydd yr Adran Ddi-Gymraeg) beth oedd uchafbwyntiau ei llywyddiaeth. Roedden nhw'n cynnwys: "dod i adnabod pobl o'r Adran Gymraeg a mwynhau melodi'r iaith - hyd yn oed os oeddwn i ond yn deall canran fach! Roedd hi'n wych cyd-weithio!". Rhanna Rob (Adran Gymraeg) mai'r "fraint fwyaf oedd ymweld â'r Cymanfaoedd gwahanol a chwrdd â'r "gweddill ffyddlon", sy'n dal y fflam ynghyn ... ac yn dystion  i ras a chariad Iesu yn eu cymunedau." *Diolch Maggie a Rob!*

## Momentum 2026

**Ar ddechrau mis Mehefin, daeth dros 200 o bobl at ei gilydd ar gyfer Cynhadledd Momentum yn yr Halliwell, Caerfyrddin.**

Eleni ystyrion ni'r thema "Darganfod Ei Ffordd" ("Finding His Way: Keeping in Step with Jesus"). Roedd y diwrnod yn blethiad hyfryd o fawl, gweddi, a straeon ysbrydoledig am gwrdd â Iesu ar bererindod bywyd. Cawsom ein bendithio nid yn unig gan bresenoldeb Dot Tyler o 24/7 Prayer GB, ond hefyd Kang-San Tan a thîm o BMS World Mission, a Trystan Owain Hughes. Un o'r llinynnau cryf a blethodd trwy'r diwrnod oedd thema ein teithiau ffydd gyda'r Arglwydd – yn enwedig fel a brofir trwy weddi. Eleni roedd ffocws ar ymwneud â gweddi yn unigol ac ar y cyd – yn wir, roedd yr ystafell weddi newydd yn brysur iawn ar sawl adeg! Roedd hi'n arbennig iawn bod yng nghwmni Dot Tyler a Mark Fairweather-Tall yn yr edfa bob oedran wrth i ni ymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol i ysbrydoli ein gweddïau (o ffenestri gwydr lliw DIY i gadwyn weddi enfawr!).





Roedd ffocws hefyd ar genhadaeth yn ystod y diwrnod – nid yn unig wrth glywed straeon am Dduw ar waith trwy BMS World Mission, ond hefyd wrth ystyried sut y gallwn fyw ein ffydd mewn cyd-destunau 'dydd i ddydd' gyda phanel amrywiol. Mae'n ymddangos bod y plant a'r ieuenctid wedi cael eu hysbrydoli gan sesiynau gwych yn eu ffrydiau hefyd, ac iddynt gael eu hannog nad ydyn nhw fyth yn rhy ifanc i weddïo! Roedd Momentum eleni yn ddiwrnod ysbrydoledig, creadigol a llawn ffydd: i bob oedran!

# Undeb 2026: 'Rhodiwch mewn Cariad'

**Ar y 18fed – 22ain o Fehefin, daeth nifer o blith teulu Undeb Bedyddwyr Cymru (iaith Gymraeg) at ei gilydd am bedwar diwrnod o gyfarfodydd, cymdeithas a mawl**

Roedd eleni yn gyfarfod arbennig – gyda'r Barch. Ddr Rosa Hunt yn cael ei hurddo fel llywydd: os nad fel y llywydd cyntaf erioed a anwyd y tu allan i Gymru – yn sicr fel y fenyw gyntaf o'u plith! Cawsom deuddydd cychwynnol amrywiol wrth i ni ystyried materion eang yn ein cyfarfodydd busnes - o Esgyn a chenhadaeth ymhlith yr ifainc, i adeiladau a chyfleoedd arloesol newydd posib, i hanes yr hanesydd T M Bassett wrth i lyfrgell newydd gael ei agor yn ei enw yng Ngholeg Bedyddwyr Caerdydd. Cawsom wledd yn y nosweithiau hefyd: bwyd ardderchog yng Nghaerdydd, wedi dilyn gan wleddoedd cerddorol ac ysbrydol yn yr hwyr. Un uchafbwynt oedd oedfa'r Llywydd ar y nos Wener wrth i ni groesawu'r Barch. Ddr. Rosa Hunt fel llywydd. Clywsom anerchiad ysbrydoledig ganddi ar y thema 'Rhodiwch mewn Cariad' yn seiliedig ar Effesiaid 5:2, gyda Rosa yn ein herio i feddwl am gariad Duw fel grym nerthol – sydd yn gallu ail-gyfeirio ein cynlluniau mewn ffyrdd drastig, a'n harwain at y llefydd ble mae'r Arglwydd eisoes ar waith. Hyfryd hefyd oedd croesawu cynrychiolwyr o enwadau eraill ar wahanol adegau, gan gloi gydag Oedfa Gymun Undebol Eglwysi Cymraeg Caerdydd fore Sul. *Diolch i Rosa a'r Tabernacl!*








# BMS World Mission: O Bob Man i Bob Man!

## NEWYDDION ar draws y Byd

**Yn draddodiadol, ystyriwyd Cenhadaeth fel menter "o'r Gorllewin i'r Gweddill". Ond yn Ghana, mae stori wahanol iawn yn datblygu – un sydd yn cynnwys ein partneriaid BMS World Mission.**

Fel Cristion ifanc, breuddwydiodd Kwame Adzam o Ghana am chwarae rhan arwyddocaol yn y Comisiwn Fawr. Ac mae'n sicr yn gwneud hynny: y dyddiau hyn, mae'n arwain gweinidogaeth 'Heart for the Gospel' BMS World Mission. Ond roedd ganddo freuddwyd arall, mwy penodol. "Pan ddes i'n grediniwr, byswn i'n gofyn i fy hunan, 'Pryd fydd Ghana yn gallu anfon gweithwyr cenhadol i lefydd eraill?' Byswn i bob amser yn gweddïo, 'Arglwydd, nei Di agor drysau ar gyfer Eglwys y De Byd-eang fel y gallwn fod yn bartneriad arwyddocaol yn cyflawni dy genhadaeth?'" Nawr, o'r diwedd, mae'r weledigaeth yn dechrau dod yn wir. Dros y degawdau diwethaf, mae asiantaethau cenhadaeth wedi dechrau meddwl am genhadaeth yn llai fel rhywbeth sy'n perthyn i'r Gorllewin, ac yn fwy fel menter "o bob man i bob man". Tra bod yr Eglwys Orllewinol mewn dyddiau anodd, mae Cristnogaeth yn y De Byd-eang yn ffynnu. A chyda'r ffydd fywiog hon daw'r awydd i ledu'r efengyl. Yn 2024, gyda chefnogaeth BMS a phartneriaid lleol, ganwyd Hwb Cenhadaeth Oasis Affrica. Mae'n ganolfan yn Ghana lle gall Cristnogion o bob cwr o Affrica ennill y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gymryd rhan mewn cenhadaeth - yn eu cyfandir a thu hwnt. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys modiwlau ar efengylu, disgyblaeth, rheoli risg a mwy. Dywed Kwame: "Mae'r Hwb yn gweithio'n fwriadol ac yn strategol gydag eglwysi, asiantaethau cenhadaeth ymhlith eraill, i adnabod, recriwtio, hyfforddi, anfon a chefnogi gweithwyr cenhadaeth o Affrica i lefydd eraill." Nid yw'r stori yn gorffen gyda Ghana. Yn ddiweddar, mae BMS wedi dechrau gwneud cynlluniau ar gyfer ail ganolfan genhadaeth yng Ngwlad Thai, a allai gyrraedd 1.6 biliwn o bobl. *Gallwch ddarganfod mwy am hanes Kwame a gwaith BMS ar* *bmsworldmission.org/ from-everywhere-to-everywhere*



# *Dod i nabod...*

# Bryan ac Anne



Yn y rhifyn hwn o 'Dod i Adnabod', clywn hanes **Bryan ac Anne Collis** o Seion Waunarlwydd ac ychydig o'u taith bywyd a ffydd hyd at heddiw...

**Allech chi ddweud ychydig wrthym amdanoch chi'ch hun, a'ch stori hyd at y pwynt hwn?**

Mae Anne yn Gymraeg, wedi ei geni yn y Cymoedd – ond cafodd ei mabwysiadu ar enedigaeth i deulu dros y ffin. Mae Bryan yn Saesneg, wedi ei eni yn Llundain i rieni o Devon a Hampshire. Fe wnaethom ni gwrdd yn y Brifysgol ac rydyn ni bellach yn briod ers 38 mlynedd. Mae gan y ddau ohonom ddoethuriaethau, mae'r ddau ohonom yn niwro-amrywiol, ac mae'r ddau ohonom yn entrepreneuriaid cymdeithasol! Mae Bryan yn rhedeg Wild Plant Paper ac yn gyrru ar gyfer Tesco ac mae Anne yn gwneud hyfforddiant busnes a chynhwysiant cymdeithasol, yn ogystal â mentrau creadigol eraill. Mae gennym dri o blant sy'n oedolion. Mae gan Anne Covid hir, felly Bryan yw ei gofalwr hefyd. Rydyn ni wedi bod yn Waunarlwydd ers 10 mlynedd, ar ôl byw am 24 mlynedd ym Mangor – a chyn hynny, roedden ni'n symud o gwmpas. Rydym wedi addoli yn Seion Waunarlwydd ers dod i lawr i'r De, ac yn raddol daethom yn arweinwyr lleol ar yr eglwys. Byddaf fi (Anne) hefyd yn un o ymddiriedolwyr CIO newydd Morgannwg.

**Sut ddaethoch chi'ch dau i ffydd – ac i'r weinidogaeth?**

Bryan: Des i i ffydd trwy grŵp Scripture Union yn yr ysgol, o ddim cefndir Cristnogol o gwbl – heblaw am fam-gu oedd yn weddigar. Cefais fy medyddio yn Eglwys Bedyddwyr Kirkintilloch ar fy mhen-blwydd yn 18 oed.

Anne: Roedd fy mam fabwysiadol yn mynychu'r eglwys Anglicanaidd leol, ac roedd hi'n mynd â fi yno. Dim ond yn fy arddegau y daeth ffydd yn real i fi trwy'r Undeb Cristnogol yn fy ysgol. Darganfûm yn ddiweddarach bod gen i fam-gu enedigol oedd yn gweddïo hefyd. Fy mwriad yn y brifysgol serch hynny oedd anghofio am Dduw (!), felly 'ar ddamwain' fe wnes i ollwng nodyn am gyfarfod gweddi yn fy ngholeg ar lawr. Cododd Bryan y nodyn - roedd wedi bod yn gweddïo y byddai'n cwrdd â Christion arall. Felly doedd dim siawns gen i! Yn lle hynny, fe wnaethon ni ddyweddïo a dechrau meddwl bod galwad i ni fynd i'r weinidogaeth yn Tsieina.

Bryan: Yn hytrach, ar ôl blwyddyn yng Ngholeg Beiblaidd Glasgow, daethon ni i ben ym Mangor, a gwasanaethu Duw yn Eglwys y Bedyddwyr Penrallt. Fe wnaeth Duw ddefnyddio'r hyfforddiant yno. Yn ddiweddarach, atgyfnerthodd hyfforddiant Forge UBC y dysgu cynharach, a helpu cryfhau ein hymdeimlad o berthyn i deulu'r Undeb.

Anne: Yn raddol, fe wnaethom ni deimlo Duw yn ein galw i rôl newydd fel aelodau yn Seion Waunarlwydd. Roeddem eisoes yn trefnu gwasanaethau dydd Sul ac yn rhannu dyletswyddau arwain. Roedd mis Medi diwethaf yn gyfnod emosiynol i ni wrth i'n heglwys, Dosbarth, Cymanfa, a'r Undeb gydnabod galwad Duw ar ein bywydau fel aelodau yn Seion i fod yn weinidogion a gydnabyddir yn lleol.

**Beth yw eich gweddi dros eich cymuned – a Chymru – wrth edrych ymlaen?**

Mae dwy weddi gennym. Mae un ar gyfer Seion a chapeli fel ein un ni. Mae Seion yn fach. Rydym ni i gyd yn hŷn. Fel eglwys, rydym ni'n gweld yr heriau – ac rydym ni hefyd yn gweld Duw. Mae gweld y ddau yn golygu nad ydym ni'n teimlo ein bod wedi ein trechu, ond rydym ni'n realistig. Gweddïwn. Edrychwn ar yr hyn y mae Duw wedi ei roi i ni. Defnyddiwn yr hyn y mae'n ei roi i ni mewn ffyrdd creadigol a chenhadol. Er enghraifft, mae gennym ychydig o wythnosau cyn y Nadolig a'r Pasg pan fyddwn yn trefnu gweithgareddau creadigol, rhyngweithiol i'r ysgolion lleol – yn lle rhedeg gweithgareddau plant wythnosol. Ydyn ni'n gweld pobl yn dylifo i'r capel? Nadyn! Ydy pobl yn cael eu newid? Yn sicr! Gweddïwn na fyddwn yn colli calon, ond y byddai ein haelodau presennol yn byw yn ddigon hir, trwy ras Duw, i weld y ffrwythau cyntaf o'r cenedlaethau iau.

Mae'r ail weddi ar gyfer Cristnogion cenhadol. Fe wnaeth ein paratoadau ar gyfer Tsieina ein dysgu ni am yr angen ar gyfer Cristnogion sydd yn gallu byw yn 'llawn amser' i Grist trwy eu gwaith seciwlar, bywyd teuluol a'u hymwneud a'r gymuned leol. Dyw Cristnogion ddim yn gallu delegeiddio cyfrifoldeb am genhadaeth i Gristnogion 'proffesiynol'. Ein gweddi yw y byddai y CIOs cenhadol newydd yn medru cefnogi gwaith y Cymanfaoedd i gefnogi'r eglwysi, a'i gwneud hi'n haws i Gristnogion 'cyffredin', bob dydd, wybod sut i fyw bywyd bob sydd mewn ffordd fwriadol dros Grist,
mewn ffordd genhadol.

**Cysyll-twch â ni!**
0345 222 1514
post@ubc.cymru
Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin SA31 3HB